LC244

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996. Maent yn peri newidiadau i'r prawf moddion ar gyfer penderfynu faint o grant adnewyddu grant cyfleusterau i'r anabl a all gael ei dalu gan yr awdurdodau tai lleol mewn perthynas â cheisiadau gan berchen-feddianwyr a thenantiaid. Mae'r mwyafrif o'r diwygiadau hyn yn dilyn yn sgil newidiadau a wnaed i Reoliadau Budd-dâl Tai (Cyffredinol) 1987 sydd wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol.

Mae Rheoliadau i'r un perwyl yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft hwn. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

- Byddai'n fuddiol enwi'r OS diwygio y cyfeirir ato yn yr ail baragraff.
- Fe allai fod yn gliriach i'r defnyddwyr pe bai'r pedwerydd paragraff yn cael ei rannu'n ddau baragraff.

- Credir y dylai’r cyfeiriad at Reoliad 7 yn y pumed paragraff ymddangos ar ddechrau’r frawddeg olaf, a ddylai fod yn baragraff ar wahân wedyn.

**Rheoliad 8(c)**

Nid yw’r ddarpariaeth sy’n cael ei mewnosod yn ffitio’n rhwydd fel (b)(iii). Buasai’n well fel paragraff (c).

**Rheoliad 13(b)**

Yn yr is-adran (7) sy’n cael ei mewnosod dylai’r geiriau “with the period of study within that period” ddarllen –

“Within the period of study”.

Gwall teipograffyddol yw hwn, a ddylai gael ei gywiro wrth argraffu.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

8 Mai 2001